

# DOLEN Y TAB – 17

14–15 Awst 2020

---

*Yn ôl ein harfer byddwn yn cyd-addoli gyda Bethlehem, Gwaelod y Garth, drwy gydol mis Awst.*

## **\*\*BORE SUL 16 AWST\*\***

Bydd yr oedfa yng ngofal Delwyn Siôn, Arweinydd Bethlehem. Yn hytrach na myfyrdod rhithiol, yr hyn a gawn ni fydd neges ar ffurf dogfen 'Word' gyda thasg i'w chyflawni yn ystod y dydd.

Bydd yn ymddangos ar Facebook ac ar ein gwefan yn gynnar fore Sul.

---

## **Trefn Oedfaon Gweddill Mis Awst**

### **23 Awst**

Oedfa yng ngofal Edwyn Evans ac aelodau'r Tabernacl.

### **30 Awst**

Oedfa dan ofal Rhodri-Gwynn Jones.

*Os na chlywch yn wahanol, bydd pob un o'r oedfaon hyn ar gael ar ein llwyfannau arferol.*

---

### **Cofiwch hefyd bob dydd Sul am . . .**

- **12.00**  
Oedfa Radio Cymru
- **12.30**  
Rhaglen radio *Bwrw Golwg* gyda John Roberts.
- **E-fwletin Cristnogaeth21** ar eu gwefan [www.cristnogaeth21.cymru](http://www.cristnogaeth21.cymru)

## **LLYFRYN DATHLU'R 150**

Erbyn hyn bydd nifer ohonoch eisoes wedi derbyn copi printiedig o lyfryn Dathlu'r 150 gan un o'r gofalgwyr ardal sydd wrthi'n ei ddsbarthu ar ein rhan. Dylai'r gweddill ohonoch dderbyn eich copi dros y 7–10 diwrnod nesaf. Diolch yn arbennig i'r rhai a wirfoddolodd i'w ddsbarthu ar waetha Covid-19 a'r gwres tanbaid. Rydym yn hyderus y bydd pawb yn cael blas mawr wrth fodio tudalennau lliwgar y llyfryn a rhyfeddu at yr holl wybodaeth mae Emlyn Davies wedi llwyddo i'w chrynhoi o fewn ei gloriau. Os na fyddwch wedi derbyn copi erbyn diwedd y mis, rhowch wybod i ni fel y medrwn sicrhau bod copi yn eich cyrraedd.

Eisoes mae sawl un wedi holi a oes modd derbyn copïau ychwanegol i'w hanfon at eu plant neu riant. Y newyddion da yw ein bod wedi gofalu bod gennym stoc digonol o gopïau wrth gefn i gwrdd â'r galw hwn a hefyd i'w defnyddio i hyrwyddo'r achos drwy ei gyflwyno i ymwelwyr ac aelodau newydd.

## **WRTH EU GWEITHREDOEDD . . .**

Yn gynharach yr wythnos hon fe drosglwyddodd Arwyn Jones, ein Trysorydd, £1,605 pellach i Fanc Bwyd Taf Elái – sef yr arian a godwyd ymhlith aelodau'r Tabernacl ers dechrau Mehefin. Felly, cyfanswm cyfraniad yr eglwys mor belled i'r banc bwyd yng nghyfnod y clo yw **£3,405**. Diolch i bawb sydd wedi cyfrannu mor hael ac i'r Gweithgor Cyfiawnder Cymdeithasol am drefnu'r ymgyrch. Y tristwch mwyaf, mae'n siŵr, yw y bydd y galw am gymorth y banc bwyd yn cynyddu'n sylweddol iawn dros y misoedd nesaf ac felly bydd yr apêl ar agor am sbel eto.

## **OES DYDDIAD I AILAGOR?**

Mae'n bosib eich bod wedi clywed y newyddion bod rhai capeli lleol naill ai wedi ailagor eu drysau eisoes neu'n bwriadu gwneud hynny'n gynnar ym mis Medi. Mae'n gwbl naturiol, felly, eich bod yn dyfalu tybed beth yw ein cynlluniau ni yn y Tabernacl. Hyd yn hyn, nid oes unrhyw newid wedi bod i benderfyniad Bwrdd y Cyfarwyddwyr ym mis Gorffennaf i beidio ag ail-agor nes bod yr amodau wedi llacio ymhellach. Bydd y Bwrdd yn cwrdd yn gynnar ym mis Medi i drafod pryd i ailagor. Yn y cyfamser, gobeithiwn elwa ar brofiadau'r capeli hynny sydd eisoes wedi mynd ati i gynnal oedfaon.

## PROFIADAU CRWYDRO MAES GŴYL AmGen

*Peidiwch, da chi, â rhannu'r gyfrinach hon gydag uchel swyddogion ein Prifwyl rhag ofn i'r Tabernacl gael ei erlid am ledaenu daliadau hereticaidd! Y gwir plaen yw i mi dderbyn mwy o fendith wrth grwydro'r maes eleni nag erioed o'r blaen! Meddyliwch . . . dim ciwio mewn haul crasboeth i sicrhau sedd yn y Babell Lên; dim rhuthro trwy ddilyw i wrando ar ddarlith sych ym Mhabell y Cymdeithasau; dim cydwybod euog wrth osgoi 'wyneb' cyfarwydd oedd yn prysuro tuag ataf gan i mi anghofio'n llwyr enw 'perchennog' yr wyneb hwnnw, a'm cysylltiad ag ef/hi. Ond yn bwysicach na dim efallai oedd medru gwerthfawrogi na fyddai unrhyw bwysau arnaf i geisio bod mewn dau le ar yr un pryd, gan fod modd dychwelyd i'r maes dro ar ôl tro i flasau rhai o ddanteithion yr ŵyl na lwyddwyd i'w gweld ar yr amser penodedig.*

Sut arall fyddwn i wedi llwyddo i gadw'n effro i werthfawrogi darlith dreiddgar Aled Edwards i Sefydliad Josef Herman ar y testun 'Cofid, Cenedl a'r Hawl i Fyw' gan iddi gael ei 'thraddodi' am 11 ar fore Sadwrn cyntaf yr ŵyl yn ôl yr 'amserlen'. Ond yma, yng nghlydwch fy stydi, mae modd i mi ddysgu am waith y Fforwm Cymunedau Ffydd ar wleidyddiaeth Cymru ers datganoli rhai pwerau i Fae Caerdydd, ac yn arbennig felly y rôl mae'r fforwm wedi'i chwarae dros y misoedd diwethaf yn wyneb Covid-19 a'r ymgyrch 'Hawl i Fyw'. Os na chawsoch gyfle hyd yma i wrando ar neges Aled, mae drysau AmGen yn dal ar agor ar y wefan: [eisteddfod.cymru/amgen-celf-sefydliad-josef-herman](http://eisteddfod.cymru/amgen-celf-sefydliad-josef-herman).

Wrth lwc, gan na chefais gyfle i ymweld ag Arddangosfa Epona yn y Lle Celf yn ystod wythnos yr ŵyl ei hun, fe lwyddais i osgoi embaras mawr. Dydd Mercher yr wythnos hon oedd hi pan fentrais i'r gofod rhithiol hwn ar wefan AmGen, ac o fewn eiliadau roedd fy mhen yn troi fel chwyrilgwgan mewn ansicrwydd pa lwybr i'w ddilyn. Cefais fy siomi'n ddifawr gan un greadigaeth artistig oedd yn ymddangos yn gwbl ddiddychymyg i mi – cyn sylweddoli fy mod yn syllu ar nenfwd y Lle Celf! Ond gan nad oedd neb yno i sbecian ar fy ffolineb penderfynais ddyfalbarhau a chael fy rhyfeddu wrth ganfod ymatebion amrywiol nifer fawr o artistiaid i bennod warthus yn hanes Cymru'r ugeinfed ganrif, sef hanes y 'chwalu mawr' ar Fynydd Epynt – y gymuned o 200 o Gymry Cymraeg eu hiaith a chwalwyd am byth pan orfodwyd y trigolion i adael yn 1940 ar orchymyn y Swyddfa Rhyfel. Er mai ychydig ddyddiau o rybudd yn unig roddwyd iddynt i symud eu holl eiddo, ni chawsant ddychwelyd – ac eiddo'r Weinyddiaeth Amddiffyn yw Mynydd Epynt 80 mlynedd yn ddiweddarach.

Nid yw gofod yn caniatáu i mi ymhelaethu am holl gyfoeth yr arddangosfa, ond un o'm ffefrynnau personol yw 'Cynnau tân ar hen aelwyd' gan

Carwyn Evans, sef cyfres o saith darlun pensil ar bapur plaen gyda phob llun yn cynnwys dim ond brigau coed wedi'u gosod yn daclus yng nghanol y dudalen. Hanes torcalonnus Thomas Morgan, Glan-dŵr, a ysbrydolodd yr artist i lunio'r cyfanwaith hwn. Fel pob un o'r trigolion roedd e'n ffyddiog iawn y câi ddychwelyd i'w hen gartref ar ddiwedd y rhyfel. Felly, yn ddigon naturiol, dychwelai yno'n achlysurol yn y misoedd wedi iddo gael ei symud allan i gynnuau tân rhag i'r ffermdy ddiweddef o damprwydd. Sylwodd swyddogion y fyddin ar bwmpas ei ymweliadau ac aethant ati i ddinistrio Glan-dŵr ac esbonio i Thomas Morgan na fyddai angen y cartref byth eto. Mae'r lluniau iasoer hyn yn ddatganiad mwy effeithiol na geiriau i gyfleu grymoedd didostur gwladwriaethau yn erbyn hawliau dynol. Cyn ymweld â'r arddangosfa, mae'n werth bwrw golwg ar rai digwyddiadau yn y Lle Celf yn [eisteddfod.cymru/amgen-celf](http://eisteddfod.cymru/amgen-celf) megis *Epona: Ymateb Artistiaid a Thaith Rithiol Y Lle Celf*.

Un 'digwyddiad' arall y mae'n rhaid i mi ei grybwyll yw darlith y diweddar Hywel Teifi Edwards ar y testun 'Daniel Owen a'r Wyddgrug' yn y Babell Lên. Mae'n wir mai ychydig iawn o'i ddarlith oedd yn sôn am weithiau DO, a dim byd o gwbl at fy nant i am Yr Wyddgrug, ond dysgais lawer am gyflwr ymneilltuaeth Cymru yn yr 1870au.

*Ond ta waeth, am y tro cyntaf yn ystod fy 'ymweliad' â'r ŵyl, sylwais fod y camera yn y Babell Lên yn troi'n aml at un o'r gynulleidfa oedd yn wyneb 'cyfarwydd' i mi. Felly roeddwn yn edrych ymlaen yn fawr at gael sgwrs am y ddarlith, cyn cofio mai yn 2007 y'i traddodwyd ac mai yn sedd gefn Capel y Tabernacl yn Nhachwedd 2013 y cwrddais â Nia Williams am y tro cyntaf! Felly pan ddaw'r eisteddfod i Dregaron yn 2021(?) fydd dim dewis gennyf ond archebu pâr o wellingtons gwyrd a sbectol dywyll (nid i osgoi'r haul ond yr 'wynebau cyfarwydd' anghyfarwydd) ac anelu am y 'gorllewin gwyllt'.*

### Capel y Tabernacl Cyf.

#### RHEOLWR SAFLE

Gwahoddir ceisiadau am swydd ran-amser yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf.

Am fanylion pellach cysylltwch ag un o'r canlynol:

Mike West [mikealynwest@yahoo.co.uk](mailto:mikealynwest@yahoo.co.uk)/ 01443 206833  
Gwilym Huws [gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk)/ 01443 225205

*Cylchlythyr wythnosol yw **Dolen y Tab** a sefydlwyd yn ystod y cyfnod clo i ledaenu newyddion teuluol, cyhoeddiadau neu ddiolchiadau i aelodau'r Tabernacl trwy gyfrwng e-bost, Facebook a gwefan y capel [www.tabernacl.org](http://www.tabernacl.org). Anfonwch unrhyw newyddion sydd gennych i'w rhannu erbyn nos lau yn wythnosol i:*

[gehpengwern@yahoo.co.uk](mailto:gehpengwern@yahoo.co.uk) / 07710 237327 / 01443 225205.